




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Protocol Marwolaeth Myfyrwyr

Protocol Marwolaeth Myfyriwr

1. Diben

Diben y protocol hwn yw sefydlu canllawiau a gweithdrefnau i'w dilyn mewn achos anffodus o farwolaeth myfyriwr tra'i fod wedi cofrestru yn y Brifysgol. Nod y protocol hwn yw darparu ymateb proffesiynol a gofalgwr sy'n cynnal sensitifrwydd a chyfrinachedd.

2. Egwyddorion Arweiniol

Er mwyn galluogi dull sensitif a phriodol, mae'r Brifysgol yn nodi'r egwyddorion canlynol fel man cychwyn:

- *Dylid dangos parch ac urddas er cof am y myfyriwr bob amser a thrwy bob gweithred a wneir yn ymwneud â'r farwolaeth;*
- *Dylid defnyddio'r disgresiwn mwyaf wrth dderbyn a throsglwyddo unrhyw wybodaeth am y digwyddiad, gyda siôn a dyfalu yn cael eu hosgoi cymaint â phosibl;*
- *Dylid ystyried dymuniadau teulu'r myfyriwr a/neu ei gynrychiolydd ffurfiol lle bynnag y bo modd;*
- *Rhaid rhoi cymorth a chydweithrediad llawn i bob awdurdod perthnasol – er enghraifft yr heddlu a swyddfa'r crwner – lle bo angen;*
- *Bydd cymorth priodol yn cael ei ddarparu i fyfyrwyr a staff yr effeithir arnynt gan y farwolaeth.*

3. Marwolaeth Myfyriwr

Gall union amgylchiadau marwolaeth myfyriwr amrywio'n fawr ym mhob achos:

- Gall y farwolaeth fod o ganlyniad i achosion naturiol, megis trawiad ar y galon;
- Gall y farwolaeth fod yn sydyn ac yn annisgwyl ac yn digwydd mewn man cyhoeddus iawn, megis damwain ar y campws neu'n agos ato;
- Efallai y bydd mwy nag un farwolaeth yn gysylltiedig, er enghraifft damwain traffig ar y ffordd;
- Efallai y bydd y farwolaeth yn disgwyltiedig, ac efallai y bydd rhywfaint o waith paratoi wedi'i wneud eisoes. Er enghraifft os bydd myfyriwr sydd â salwch difrifol a oedd yn bodoli'n barod yn marw tra mewn gofal;
- Gall y farwolaeth fod o ganlyniad i hunanladdiad;
- Gall y farwolaeth gynnwys amheuaeth o weithgarwch troseddol, ac felly yn cynnwys yr heddlu ac awdurdodau eraill. Gall hyn gyfyngu'n ddifrifol ar ba wybodaeth y gellir ei lledaenu;
- Gall y farwolaeth ddigwydd dramor, ac os felly mae llysgenadaethau perthnasol a'r Swyddfa Dramor yn debygol iawn o fod angen ymwneud â'r trefniadau;
- Efallai bod y farwolaeth wedi'i chofnodi mewn rhyw ffordd ar ddyfeisiau diogelwch neu gyfryngau cymdeithasol, naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol;
- Gall fod ffactorau diwylliannol neu grefyddol penodol yn gysylltiedig â'r farwolaeth, ac yn y ffordd y mae'r teulu'n dymuno i'r farwolaeth gael ei thrin.

3. Hunanladdiad a amheuir

Os amheuir bod marwolaeth myfyriwr yn hunanladdiad, dylid darllen y protocol hwn ar y cyd â'r trefniadau *Postvention* a amlinellir ym Mhrotocol Diogelu Rhag Hunanladdiad y Brifysgol.

Sylwch mai dim ond y crwner all gadarnhau achos y farwolaeth yn ffurfiol fel hunanladdiad.

4. Darganfod corff

a. Lleoliad

Bydd lleoliad y farwolaeth yn dylanwadu'n sylweddol ar y graddau y mae aelodau'r Brifysgol yn ymwneud â'r camau cynnar o ymdrin â darganfod y corff a hysbysu'r awdurdodau.

Mae'n debygol y bydd y lleoliad yn un o'r canlynol:

- Yn un o breswylfeydd y Brifysgol;
- Mewn rhan amhreswyl ar ystâd y Brifysgol;
- Oddi ar y campws wrth gymryd rhan yng ngweithgarwch y Brifysgol;
- Oddi ar y campws, wrth fyw mewn llety lleol i ffwrdd o'u preswylfa barhaol neu deuluol;
- Oddi ar y campws yn eu cartref parhaol neu mewn man cyhoeddus;
- Tra bydd y myfyriwr dramor, naill ai ar leoliad Prifysgol neu ar wyliau.

b. Os bydd corff yn cael ei ddarganfod:

- Peidiwch â chyffwrdd na symud unrhyw beth (ar wahân i geisio cymorth meddygol neu gadarnhau bod y person wedi marw);
- Os yw'r lleoliad ar y campws: rhowch wybod i Weithrediadau Safle'r Brifysgol a gofynnwch iddynt ffonio'r heddlu;
- Os yw'r lleoliad oddi ar y campws: hysbyswch yr heddlu trwy ddeialu 999 a hysbyswch Weithrediadau Safleoedd y Brifysgol ar wahân;
- Unwaith y byddwch wedi hysbysu Gweithrediadau a/neu'r Heddlu dilynwch gyfarwyddiadau fel y cyfarwyddir. Peidiwch â rhoi gwybod i unrhyw un arall ar yr adeg hon, naill ai'n unigol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Bydd Gweithrediadau Safle'r Brifysgol yn rheoli'r sefyllfa yn unol â'u gweithdrefn gweithredu ac uwchgyfeirio adrannol.

Gweithrediadau safle PCYDDS

(Rhifau 24 awr - Defnyddiwch rif Caerfyrddin ar gyfer campysau nad ydynt wedi'u rhestru isod):

Caerfyrddin 07767842738

Llanbedr Pont Steffan 07976528354

Abertawe: 07850321704 neu 07540919915

Os bydd corff yn cael ei ddarganfod, bydd y Pennaeth Gweithredol Ystadau a Chyfleusterau Gweithredol yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr.

5. Adrodd, Hysbysu ac Ymateb

a. Camau Gweithredu Uniongyrchol:

Dylai unrhyw aelod o staff neu fyfyrwr y Brifysgol sy'n dod yn ymwybodol o farwolaeth myfyriwr roi gwybod i Wasanaethau Myfyrwyr ar unwaith. Gellir gwneud hyn drwy lenwi ffurflen atgyfeirio [Achos Pryder](#) neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r [Hwb Myfyrwyr](#). Bydd hyn yn cael ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr (neu eu dirprwy enwebedig yn eu habsenoldeb) drwy'r tîm Brysbennu Llesiant neu'r tîm Hwb Myfyrwyr.

Gellir rhoi gwybod y tu allan i oriau trwy gysylltu â Thîm Gweithredol y safle yng Nghaerfyrddin ar 07767842738 a gofyn i roi gwybod i'r Uwch Reolwr y Tu Allan i Orlau ar ddyletswydd.

Unwaith y bydd yr hysbysiad wedi'i wneud, gofynnir i staff a myfyrwyr beidio â chymryd unrhyw gamau pellach er mwyn caniatáu i wybodaeth gael ei dilysu'n briodol gan Wasanaethau Myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall sianeli cyfathrebu answyddogol symud yn gyflym ac mae'n annog staff a myfyrwyr i arfer doethineb, ac i ystyried yr effaith ar deulu a ffrindiau'r person sydd wedi marw. Os oes gwybodaeth eisoes yn y parth cyhoeddus gall fod yn briodol i Gyfarwyddwr Rhaglen gysylltu â charfan o fyfyrwyr, cydnabod ymwybyddiaeth y Brifysgol, esbonio'r broses a amlinellir yn y polisi hwn, a gofyn i fyfyrwyr osgoi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

b. Dilysu Gwybodaeth:

Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod yr adroddiad am farwolaeth myfyriwr yn cael ei ddilysu'n briodol.

Ar ôl ei ddilysu, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn hysbysu'r unigolion canlynol yn ffurfiol ac yn sicrhau bod unrhyw gyfathrebu a gynlluniwyd i'r myfyriwr (neu ei deulu) yn cael ei oedi a bod staff academiaidd a chymorth gweithredol allweddol yn cael eu hysbysu:

- Y Prif Swyddog Gweithredu fydd yn gwerthuso'r sefyllfa ac a allai benderfynu cychwyn Rheoli Digwyddiadau neu'r Cynllun Digwyddiadau Mawr [*hypergyswllt i'w ychwanegu*].
- Y Dirprwy Is -Ganghellor (Profiad Academiaidd)
- Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
- Cyfarwyddwr Profiad Academiaidd
- Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa
- Pennaeth Cyllid Gweithredol
- Deon Perthnasol y Sefydliad
- Pennaeth Cwnsela
- Rheolwr Cyngor Llesiant
- Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Rheolwr Hwb Myfyrwyr
- Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr

Bydd rolau perthnasol ychwanegol yn cael eu hysbysu fesul achos yn ôl yr angen.

c. Tîm Ymateb

Unwaith y bydd farwolaeth myfyriwr wedi'i chadarnhau, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn sefydlu tîm ymateb i farwolaeth myfyriwr. Bydd y Tîm Ymateb yn cynnwys: Deon perthnasol y Sefydliad, Cyfarwyddwr y Rhaglen Academiaidd berthnasol, cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr, cynrychiolydd tîm Llesiant y Brifysgol, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Chysylltiadau Cyhoeddus a Phennaeth Gweithredol AD.

Os bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn cychwyn y Cynllun Digwyddiadau Mawr, bydd Tîm Digwyddiadau Mawr yn cael ei ffurfio yn lle Tîm Ymateb i Farwolaeth Myfyriwr.

Bydd y Tîm Ymateb i Farwolaeth Myfyriwr yn gweithio ar y cyd i nodi cysylltiadau sy'n agos at yr ymadawedig a sicrhau bod dull integredig a sensitif yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â myfyrwyr a staff a'u cefnogi. Bydd y Tîm Ymateb yn cadw cofnod gweithredu a chofrestr risg briodol gan ddefnyddio safle Microsoft Teams dynodedig. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn

gyfrifol am sicrhau bod y Prif Swyddog Gweithredu a'r Pro Is-ganghellor (Profiad Academaidd) yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen.

Gellir ychwanegu aelodau ychwanegol at y Tîm Ymateb yn ôl yr angen.

d Cau Cofnod y Myfyrwyr

Unwaith y bydd marwolaeth wedi'i dilysu, bydd yr EHF yn sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei farcio fel un sydd wedi marw ar y system cofnodion myfyrwyr a bod cofnod y myfyriwr yn cael ei gloi o ran unrhyw gyfathrebu safonol pellach gan y Brifysgol. Bydd yr EHF yn sicrhau nad yw'r myfyriwr yn ymddangos ar unrhyw adroddiad dyled myfyriwr presennol nac yn y dyfodol.

e. Adrodd Statudol

Bydd y Prif Swyddog Meddygol yn hysbysu'r Is-ganghellor yn ffurfiol am farwolaeth myfyriwr a bydd hefyd yn hysbysu Ysgrifennydd y Brifysgol a fydd yn penderfynu a yw marwolaeth yn bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd statudol. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cwblhau'r adroddiadau statudol angenrheidiol yn ôl yr angen, mewn ymgynghoriad â'r ymddiriedolwyr.

Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn sicrhau bod y Brifysgol yn cadw cofnodion sy'n ymwneud â marwolaeth y myfyriwr yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau'r brifysgol.

f. Cyswllt â'r Heddlu a/neu'r Crwner

Os bydd marwolaeth sydyn neu anesboniadwy, mae'n debygol y bydd ymchwiliad gan yr Heddlu ac adroddiad dilynol i'r Crwner, a all gynnal cwest. Fel arfer, bydd cyswllt ar ran y Brifysgol â'r Heddlu a/neu swyddfa'r Crwner yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr neu eu dirprwy enwebedig.

Ni fydd angen cwest ar bob marwolaeth, ond mewn achosion eraill gall fod anghytundeb ynghylch achos y farwolaeth ac efallai na fydd yn cael ei ddatrys hyd yn oed ar ôl cwest.

5. Myfyrwyr Rhyngwladol

Os yw'r ymadawedig yn fyfyriwr rhyngwladol, mae nifer o ddimensiynau ymarferol ychwanegol i'w trafod:

- Efallai y bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfathrebu â'r teulu;
- Efallai y bydd angen cynnwys yr is-gennad neu'r llysgenhadaeth briodol, a'r cyswllt mewnol allweddol yn yr achos hwn fyddai'r Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Fisa a Chydymffurfiaeth;
- Mae dychwelyd cyrff yn ddarostyngedig i reoleiddiad llym ac mae angen cynnwys trefnwr angladdau;
- Ystyriaethau diwylliannol perthnasol.

6. Cyfrinachedd

a. Pryderon Preifatrwydd:

Bydd y Brifysgol yn parchu preifatrwydd y myfyriwr ymadawedig a'i deulu ac yn rhannu gwybodaeth gydag unigolion sydd ag angen cyfreithlon i wybod yn unig.

Dim ond ar ôl i'r Brifysgol fod yn siŵr bod yr Heddlu wedi hysbysu'r teulu y bydd unrhyw gyfathrebu â'r corff myfyrwyr yn digwydd, **ac** ar ôl cael tystiolaeth bod marwolaeth y myfyriwr eisoes yn gyhoeddus, **neu** gyda chaniatâd penodol teulu'r myfyriwr.

b. Cysylltiadau â'r Cyfryngau:

Bydd ymholiadau gan y cyfryngau yn cael eu cyfeirio at swyddfa Cyfathrebu Corfforaethol a Chysylltiadau Cyhoeddus y Brifysgol, a bydd unrhyw wybodaeth a ryddheir yn unol â chanllawiau cyfreithiol a moesegol.

7. Gwasanaethau Cymorth Profedigaeth

a. Cyswllt Teulu:

Er mwyn cynnig cefnogaeth i'r teulu ac i allu gwneud trefniadau ar gyfer yr aelodau hynny o gymuned y Brifysgol sy'n dymuno mynychu'r angladd (os caniateir hynny), mae'n bwysig sefydlu un cyswllt Prifysgol ar gyfer y teulu. O bryd i'w gilydd, ni fydd y teulu eisiau unrhyw gysylltiad â'r Brifysgol.

Yn ddelfrydol, mae'r **cyswllt teuluol** yn aelod o staff y Brifysgol a oedd yn adnabod y myfyriwr: mae profiad wedi dangos bod teuluoedd yn gwerthfawrogi hyn fwyaf. Fel arfer, mae'n well i hyn fod yn uwch aelod o staff yn yr Athrofa sydd wedi cael rhywfaint o gyswllt addysgu neu gysylltiad arall â'r myfyriwr. Weithiau bydd y Deon neu aelod o'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn ymgymryd â'r rôl hon.

Cyfrifoldebau allweddol y **cyswllt teulu** yw:

- Canfod a oes angen unrhyw beth ar y teulu, er enghraifft, help i gasglu eiddo personol neu i ymweld â'r Sefydliad neu ran arall o'r Brifysgol;
- Egluro trefniadau'r angladd ac a fyddai'r teulu'n croesawu myfyrwyr a staff i'r angladd;
- Bod yn sianel ar gyfer unrhyw wybodaeth ymarferol, er enghraifft, dychwelyd ffioedd neu ddarparu trawsgrifiad a/neu dystysgrif ar gyfer dyfarnu graddau ar ôl marwolaeth (gweler adran 10);
- Nodi enwau unrhyw fyfyrwyr sy'n hysbys i'r teulu; efallai eu bod yn gwybod am ffrindiau agos yr ymadawedig, ac i'r gwrthwyneb;
- Weithiau gellir gofyn i'r cyswllt teuluol siarad â'r teulu am gynnal digwyddiad coffa; a ydynt yn gyfforddus bod hyn yn digwydd, a ydynt yn dymuno bod yn bresennol ac a oes unrhyw gredoau crefyddol penodol i'w hystyried.

b. Cymorth i Fyfyrwyr:

Bydd myfyrwyr yn cael mynediad at gyfres o adnoddau a gwasanaethau i ymdopi â'r golled. Os bydd effaith andwyol ar berfformiad academiaidd, bydd cymwysiadau priodol yn cael eu hystyried fesul achos yn unol â'r weithdrefn amgylchiadau lleihaol sefydledig, fel yr amlinellir yn y [Llawlyfr Ansawdd Academiaidd](#).

Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn gweithio ar y cyd â'r tîm rhaglenni academiaidd perthnasol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cyfeirio'n briodol at lwybrau mewnol ac allanol i gael cymorth. Gall myfyrwyr gyfeirio eu hunain at wasanaethau cymorth llesiant gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio [Achos Pryder](#).

Mae cymorth ychwanegol ar gael trwy ein tanysgrifiad Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth ychwanegol yn bersonol ac o bell i gyfoedion myfyrwyr os bydd

myfyriwr yn marw. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn cysylltu â'r darparwr Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr yn ôl yr angen.

Mae cymorth aml-ffydd hefyd ar gael i fyfyrwyr trwy drefniadau [Caplaniaeth y Brifysgol](#).

c. Cymorth Staff:

Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â chymorth i unrhyw aelod o staff y Brifysgol yr effeithiwyd arno gan farwolaeth myfyriwr yn cael ei darparu a'i dosbarthu drwy AD. Anogir staff i ofyn am gymorth gan eu rheolwr llinell yn y lle cyntaf.

8. Cydymdeimlad a Choffadwriaeth

Gall y Brifysgol gydlyn â'r teulu ac adrannau perthnasol y brifysgol i drefnu gwasanaeth coffa neu weithred goffa i anrhydeddu'r myfyriwr sydd wedi marw.

Bydd llythyr o gydymdeimlad gan y Brifysgol yn cael ei drefnu a'i anfon gan swyddfa'r Is-ganghellor.

9. Dyfarnu Graddau Academaidd ar ôl Marwolaeth

Manylir ar y weithdrefn ar gyfer ystyried, dyfarnu a rhoi dyfarniad academaidd ar ôl marwolaeth ym mhennod chwech o [Lawlyfr Ansawdd Academaidd](#) cyhoeddedig y Brifysgol (cyf: 6.9).

10. Adolygiad Rheolaidd:

Bydd y protocol hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei effeithiolrwydd a gellir ei ddiwygio yn ôl yr angen.

